





Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Y Fframwaith ar
gyfer y Radd Gwaith
Cymdeithasol yng
Nghymru:
Canllawiau Atodol i'r
Rheolau



Cynnwys

1. Cyflwyniad a diben.....	3
2. Strwythur y ddogfen.....	3
3. Gweithio mewn partneriaeth.....	3
4. Darparu adnoddau.....	3
5. Dewis myfyrwyr ar gyfer y rhaglen radd.....	4
6. Polisiâu a gweithdrefnau gofynnol.....	5
7. Meini prawf dysgu ac asesu.....	5
8. Sicrhau ansawdd.....	6
Atodiad 1.....	8
Atodiad 2.....	11
Cyfeirnodau.....	12

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofal
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol
© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru
ISBN: 978-1-911463-88-7

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

1. Cyflwyniad a diben

1.1. Mae arnom eisiau sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cael eu haddysgu i safon uchel a chyson yng Nghymru. Mae'r *Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru* yn amlinellu'r rheolau a ddefnyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn rheoleiddio'r cymhwyster proffesiynol. Y nod yw sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol a helpu i amddiffyn y cyhoedd.

1.2. Y *Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol* (y Rheolau) yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu amodau cymeradwyo rhaglen o hyd. Mae'r canllawiau atodol hyn yn adeiladu ar y rheolau ac mae ganddynt ddau brif bwrpas:

- egluro'r rheolau'n fanylach;
- sicrhau bod pob myfyriwr gwaith cymdeithasol sy'n llwyddo i gwblhau'r radd gwaith cymdeithasol yng Nghymru wedi dangos ei fod yn bodloni'r gofynion hyfedredd sylfaenol a ddisgrifir yn y rheolau.

2. Strwythur y ddogfen

2.1. Mae'r *Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol* yn cynnwys y rheolau ac atodlen i'r rheolau. Mae'r atodlen yn cynnwys saith elfen sy'n disgrifio amodau cymeradwyo rhaglenni. Mae'r canllawiau atodol hyn yn dilyn yr un strwythur â'r atodlen a rhaid eu darllen ochr yn ochr â'r gofynion hynny.

2.2. Defnyddir y termau 'rhaid' a 'dylai' fel a ganlyn yn y canllawiau:

- Mae 'rhaid' yn egwyddor hollbwysig;
- Defnyddir 'dylai' wrth egluro sut y bydd egwyddor hollbwysig yn cael ei bodloni;
- Defnyddir 'dylai' hefyd os na fydd yr egwyddor yn gymwys ym mhob sefyllfa, neu os oes ffactorau

y tu hwnt i'ch rheolaeth a allai effeithio ar y ffordd y gallwch ddilyn y canllawiau.

2.3. Bydd angen i bob rhaglen ddangos i Gofal Cymdeithasol Cymru sut y mae wedi ymgorffori'r Canllawiau Atodol yn ei chwrs a bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried y trefniadau ar gyfer asesu myfyrwyr fel rhan o'r broses o sicrhau ansawdd rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol.

3. Gweithio mewn partneriaeth

3.1. Mae paragraff 1 o'r atodlen yn amlinellu'r gofynion i ddatblygu, rheoli a chyflwyno rhaglenni drwy bartneriaeth rhwng cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol a sefydliad Addysg Uwch (AU). Gall y partneriaethau hyn gynnwys cyflogwyr gwaith cymdeithasol o'r sector statudol, y sector preifat neu'r trydydd sector, ond rhaid iddynt gynnwys o leiaf un awdurdod lleol a chynnwys llofnod gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid cadarnhau partneriaethau drwy gytundeb wedi'i lofnodi sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob partner a'r adnoddau sy'n cael eu hymrwymo.

3.2. Rhaid i raglenni hefyd sicrhau bod pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu, rheoli a chyflwyno'r rhaglen. Cyfeirir at agweddau penodol ar ffyrdd o'u cynnwys yn y paragraffau isod.

4. Darparu adnoddau

4.1. Mae paragraff 2 o'r atodlen yn ymwneud â'r adnoddau y mae'n rhaid i'r sefydliad AU eu rhoi i mewn i'r rhaglen. Mae rhai o'r adnoddau hyn yn cael eu sicrhau drwy gytundeb(au) partneriaeth gyda chyflogwyr.

Yn y paragraff hwn mae adnoddau'n cyfeirio at bobl sy'n ymwneud â datblygu, rheoli a chyflwyno'r rhaglen, yr adnoddau corfforol, er enghraifft y gwasanaethau llyfrgell a'r amgylchedd addysgu, a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhaglen.

4.2. Mae paragraff 2(1)(a) yn gofyn i brifysgol sicrhau bod digon o weithwyr cymdeithasol cymwys a phrofiadol yn cyfrannu at ei rhaglen gymhwyso. Mae hyn yn cyfeirio at addysgu academiaidd ac ymarferol. Mae'r troednodyn yn egluro bod rhaid i

raglenni sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at weithwyr sydd ag arbenigedd profiadol i gyflwyno pob agwedd ar y rhaglen gymhwys.

4.3. Rhaid i raglenni cymeradwy nodi arbenigedd proffesiynol staff sy'n cyfrannu at y rhaglen, a dylai'r rhan fwyaf ohonynt fod yn weithwyr cymdeithasol cymwys a phrofiadol. Disgwylir y bydd staff addysgu gwaith cymdeithasol cymwys hefyd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (neu gorff arall sy'n rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn y DU) gan fod bod yn gofrestredig yn dangos ymrwymiad i:

- fodloni gofynion hyfforddi a dysgu ôl-gofrestru;
- ystyried gwaith cymdeithasol fel proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio;
- cadw at y *Côd Ymarfer Proffesiynol*.

5. Dewis myfyrwyr ar gyfer y rhaglen radd

5.1. Mae paragraff 3(1)(b) yn nodi bod yn rhaid i'r sefydliad AU asesu ymgeiswyr. Rhaid i'r sefydliad fod yn fodlon bod gan yr ymgeisydd ddigon o brofiad o ofal cymdeithasol i'w alluogi i "arddangos y gwerthoedd a'r sgiliau sylfaenol sy'n cyfateb i'r rhai sy'n ddisgwylidiedig yn gyffredinol gan weithwyr cymdeithasol". Mae'r troednodyn i'r gofyniad hwn yn nodi bod rhaid cael o leiaf 455 o oriau ymarfer mewn swydd gyflogedig neu waith gwirfoddol, ac eithrio mewn amgylchiadau achlysurol ac eithriadol pan fydd modd dangos bod y profiad gofynnol yn cael ei fodloni mewn ffyrdd eraill. Rhaid i'r ymarfer fod wedi'i gwblhau erbyn adeg y cyfweiliad.

Mae'r amgylchiadau achlysurol ac eithriadol yn caniatáu i ymgeiswyr gael eu derbyn heb y lefel lawn o brofiad. Mewn amgylchiadau o'r fath rhaid i'r ymgeisydd allu dangos sut mae ei brofiad wedi dylanwadu ar ei ddealltwriaeth o anghenion gofal cymdeithasol pobl a'u profiad o wasanaethau gofal.

5.2. Mae paragraff 3(1)(d) yn ymwneud â sgiliau cyfathrebu a rhifedd yr ymgeiswyr. Rhaid cyraedd o leiaf Lefel 2 fel sy'n cael ei ddisgrifio gan *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*. Gellir dangos

hyn drwy gymwysterau TGAU gradd A* - C neu drwy ddulliau eraill o fesur. Mae *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* yn rhoi canllawiau ynglŷn â chymwysterau cyfatebol ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan [Llywodraeth Cymru | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru](#)

5.3. Mae paragraff 3(1)(e) yn nodi bod rhaid i'r sefydliad fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf yr ymgeisydd rhaid i'r brifysgol fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn rhugl yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd angen i'r brifysgol a'i phartneriaid benderfynu sut y bydd yn profi hyn. Gellid ystyried y canlynol fel tystiolaeth addas:

- yr ymgeisydd wedi cael sgôr dderbyniol mewn prawf Saesneg yn ddiweddar, er enghraifft yr *International English Language Test System*. Mewn achosion o'r fath dylid cael sgôr derfynol o 7.0 ac ni ddylai unrhyw is-sgôr fod o dan 6.5;

- yr ymgeisydd wedi llwyddo i gwblhau cymhwyster addysg uwch arall yn ddiweddar a oedd yn cael ei addysgu a'i arholi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

5.4. O ran cofrestrriad myfyriwr â Gofal Cymdeithasol Cymru, mae paragraff 3(3)(d) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r sefydliad AU hysbysu myfyrwyr ei bod yn ofynnol iddynt gofrestru a bod rhaid iddo fod yn fodlon bod y myfyriwr wedi ei gofrestru. Rhaid i'r hysbysiad hwn nodi'r angen i fod yn gofrestredig cyn cychwyn y rhaglen. Os oes unrhyw oedi cyn cofrestru myfyriwr:

- dylai'r sefydliad AU hysbysu awdurdod lleol cartref y myfyriwr, fel bod modd gwneud penderfyniad ynglŷn â chyfranogiad y myfyriwr yn y rhaglen;

- rhaid i'r sefydliad AU gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru os yw myfyriwr i fod i gychwyn cyfnod o ddysgu ymarfer cyn pen 14 diwrnod ond nad yw wedi ei gofrestru.

6. Polisiau a gweithdrefnau gofynnol

6.1. Disgrifir y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ym mharagraff 4 o'r Atodlen. Dylai pob myfyriwr sydd ar y rhaglen allu cael mynediad at y rhain.

7. Meini prawf dysgu ac asesu

7.1. Mae'r rhan hon o'r canllawiau atodol yn ymwneud â pharagraffau 5 a 6 o'r atodlen i'r rheolau ac mae'n elfen allweddol o'r dasg o sicrhau bod pob myfyriwr gwaith cymdeithasol sy'n cwblhau'r radd gwaith cymdeithasol yn llwyddiannus yng Nghymru wedi dangos ei fod yn bodloni gofynion sylfaenol hyfedredd fel y maent yn cael eu diffinio yn y Rheolau.

7.2. Bydd angen i bob rhaglen ddangos i Gofal Cymdeithasol Cymru sut y mae wedi ymgorffori'r canllawiau atodol yn ei gradd a bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried y trefniadau ar gyfer dysgu ac asesu myfyrwyr fel rhan o'r dasg o sicrhau ansawdd rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol.

7.3. Fel gradd alwedigaethol ac academaidd sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol ni ellir cael rhaniad artiffisial rhwng datblygu gwybodaeth a sgiliau; rhaid i'r naill ategu'r llall. Mae'r canllawiau hyn ar ddysgu ac asesu felly'n darparu strwythur ar gyfer safoni'r canlyniadau dysgu wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r radd gwaith cymdeithasol, a gall rhaglenni ddefnyddio'r strwythur hwn fel sail i'w cwricwlwm ar gyfer datblygiad academaidd ac ar gyfer datblygu ymarfer.

7.4. Gan fod y radd gwaith cymdeithasol yn ddyfarniad academaidd a phroffesiynol integredig sy'n arwain at reoleiddio proffesiynol, er mwyn pasio'r radd, rhaid i fyfyrwyr:

- basio pob rhan o'r gwaith academaidd sy'n cael ei hasesu;

- cwblhau pob lefel ddysgu academaidd yn llwyddiannus cyn mynd ymlaen i'r nesaf;

- cwblhau holl elfennau dysgu ymarfer y rhaglen yn llwyddiannus cyn mynd ymlaen i'r nesaf;

- pasio o leiaf 200 diwrnod o ddysgu ymarfer wedi'i asesu;

- darparu tystiolaeth o hyfedredd ar gyfer chwe Rôl Allweddol Gwaith Cymdeithasol a'r ugain *Safon Alwedigaethol Genedlaethol (NOS) ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2012*;

- dangos dealltwriaeth gynyddol o'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*, a'r gallu i'w ddadansoddi a'i gymhwysu;

- dangos eu bod yn gallu defnyddio dulliau a thechnegau TGCh i gefnogi eu dysgu a'u ymarfer fel sy'n cael ei ddiffinio gan *Ddatganiad Meincnodi Pwnc perthnasol yr ASA* (Gweler Atodiad 2).

7.5. Oni bai bod ganddynt gytundeb gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rhaid bod myfyrwyr yn ymgymryd â chyfnod o ymarfer yn ystod pob blwyddyn o ddysgu, tra'u bod ar y rhaglen.

7.6. Bydd angen i fyfyrwyr ddangos eu datblygiad yn ystod y radd gwaith cymdeithasol tuag at y 6 rôl allweddol a'r 20 NOS. Mae Atodiad 1 yn amlinellu strwythur cyffredinol y rhaglen gymhwysu gwaith cymdeithasol a'r camau datblygu a ddisgwylir gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol. Bydd rhaglenni unigol yn datblygu eu trefniadau manwl ar gyfer dysgu ac asesu fel rhan o'u cais i gael eu cymeradwyo.

7.7. Mae'r strwythur hwn yn seiliedig ar y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*, y *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a Datganiadau Meincnodi yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol*. Mae gan bob un o'r 20 NOS Feini Prawf Perfformiad cysylltiedig sy'n egluro beth yw ystyr y safon felly maent yn ddangosyddion hyfedredd. Er nad oes angen rhoi tystiolaeth unigol ar gyfer Meini Prawf dylid eu defnyddio fel sail i benderfyniadau ynglŷn â hyfedredd o'i gymharu â'r safon.

7.8. Rhaid i bob math o addysgu, dysgu ac asesu, boed yn cael ei wneud gan y coleg neu gan asiantaeth, gyfuno theori ac ymarfer. Datblygir dulliau asesu cyffredinol gan y rhaglen ond gallant, er enghraifft, fod yn seiliedig ar:

- arsylwi ymarfer yn uniongyrchol;

- adroddiadau, dyddiaduron neu gofnodion myfyriol;

- aseiniadau;
- dadansoddiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol;
- cyflwyniadau;
- cynnyrch eraill ymarfer neu asiantaeth;
- arholiadau;
- profion ar-lein.

7.9. Rhaid i addysg ymarfer ym mhob cyfnod dysgu ymarfer gael ei asesu gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig a phrofiadol sy'n addysgwyr ymarfer cymwysedig neu sy'n hyfforddi i fod yn un.

7.10. Mae angen i raglenni gael system i sicrhau ansawdd addysg ymarfer. Er eu bod wedi'u penodi gan awdurdodau lleol, mae addysgwyr ymarfer yn gwneud penderfyniadau ac argymhellion sy'n cael eu defnyddio gan fyrdau arholi i wneud penderfyniadau ynglŷn â dyfarniadau. O ganlyniad, bydd angen i bartneriaethau rhaglenni fod yn fodlon bod ymarfer yr addysgwyr ymarfer o safon addas. Rhaid i brifysgolion, fel y corff dyfarnu, sicrhau bod system wedi'i sefydlu i fonitro a sicrhau ansawdd addysg ymarfer. Efallai y bydd rhaglenni'n credu mai'r Panel Asesu Ymarfer yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn y cyfrifoldeb hwn.

7.11. Os nad yw'r addysgwyr ymarfer dynodedig hefyd yn gyfrifol am reoli'r myfyriwr o ddydd i ddydd yn y safle, rhaid sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol am hynny yn cael digon o amser i baratoi'n briodol ar gyfer y rôl. Natur y paratoad hwn yw bod partneriaid rhaglenni'n cytuno, ond rhaid sicrhau, o leiaf, bod yr unigolyn yn gyfarwydd â gofynion y rhaglen, ei rôl a'i gyfrifoldebau a sut y mae ei waith ef/hi yn cyfrannu tuag at ddatblygiad y myfyriwr.

7.12. Mae paragraff 5 (2)(d) o'r Atodlen i'r Rheolau yn nodi bod yn rhaid i bob myfyriwr gwblhau o leiaf un cyfle dysgu ymarfer heb fod yn llai nag 80 diwrnod mewn Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol, a bod yn rhaid i hyn gynnwys profiad o ymgymryd â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol, gan gynnwys diogelu.

Mae defnyddio a chyflawni prosesau statudol yn angen dysgu clir i bob myfyriwr gwaith cymdeithasol. O ganlyniad, rhaid i raglenni

cymeradwy sicrhau bod pob myfyriwr yn cael profiad o weithio mewn fframwaith statudol sy'n cael ei ddarparu drwy gyfle dysgu ymarfer mewn awdurdod lleol. Er bod asiantaethau eraill yn cyflawni swyddogaethau statudol ystyrir bod profiad awdurdod lleol yn hanfodol er mwyn helpu i ddatblygu:

- Profiad o weithio mewn fframwaith statudol a defnyddio a chyflawni prosesau a swyddogaethau statudol;
- Mwy o wytnwch drwy ddod i gysylltiad â'r amrediad o gyfrifoldebau sy'n benodol i waith awdurdodau lleol;
- Gwell cyflogadwyedd yn deillio o brofiad mewn awdurdod lleol.

8. Sicrhau ansawdd

8.1. Prif bwrpas rheoleiddio hyfforddiant yw amddiffyn y cyhoedd drwy'r sicrwydd y bydd pob gweithiwr cymdeithasol sy'n ymarfer wedi dilyn rhaglen hyfforddi gymeradwy sy'n bodloni safonau penodol o ran hyfedredd. Mae rheoleiddio hefyd yn sicrhau myfyriwyr gwaith cymdeithasol bod yr hyfforddiant y maent yn ei dderbyn yn cael ei gydnabod fel hyfforddiant sy'n bodloni safonau proffesiynol ac sy'n gyson â rhaglenni cymeradwy eraill a'i fod yn fuddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol.

8.2. Nod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yw sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r rhai sydd angen gofal a chymorth â llais cryf a rheolaeth go iawn dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Mae'n hanfodol felly bod y cymwysterau proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ac eraill yn cael eu cynllunio'n briodol. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymarfer ei swyddogaeth reoleiddio drwy:

- bennu Rheolau ar gyfer cymeradwyo a sicrhau ansawdd cyrsiau gwaith cymdeithasol ar lefelau cymhwys ac ôl-gymhwys;
- ystyried ceisiadau i gymeradwyo rhaglenni;
- monitro rhaglenni cymeradwy yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i:

- gyrraedd y safonau a gyhoeddwyd;
- ddefnyddio systemau i werthuso a chraffu a pharhau i ddatblygu a chanolbwyntio ar wella;
- barhau i gadw hyder dysgwyr a phartneriaid.
- cynnal adolygiadau thematig, pan fydd agwedd benodol ar addysg gwaith cymdeithasol yn cael ei hystyried ar draws darparwyr rhaglenni er mwyn rhannu ymarfer da ac ystyried pa wersi y gellir eu dysgu;
- cynnal Adolygiadau Cyfnodol, sef adolygiadau cynhwysfawr o raglenni er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni'r gofynion ar gyfer eu cymeradwyo;
- cael proses i dynnu cymeradwyaeth yn ôl os nad yw safonau'n cael eu cyrraedd yn gyson.

8.3. Gyda'i gilydd, mae Rhan III o'r rheolau a pharagraff 7 o'r atodlen yn disgrifio'r berthynas reoleiddiol rhwng y rhaglen a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gofal Cymdeithasol Cymru Tachwedd 2018

Strwythur i radd gwaith cymdeithasol

Atodiad 1

Camau Datblygu	Cynnwys	Sut y mae'n cael ei hasesu	Dyfarniad Ymadael
Nodiadau Cyffredinol	Mae cynnwys y rhaglen yn seiliedig ar: <ul style="list-style-type: none"> • Y Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2016¹ • Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2012² • Y Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol³. 	Rhaid i bob asesiad adlewyrchu'r rhaglen fel dyfarniad academaidd a phroffesiynol integredig. O ganlyniad, bydd asesiad yn defnyddio tystiolaeth o integreiddio sgiliau a gwybodaeth â dealltwriaeth gysyniadol berthnasol a dangos hyfedredd.	Mae ar fyfyrwr sy'n cwblhau rhan o'r rhaglen broffesiynol, ond nid y rhaglen gyfan, angen dyfarniadau ymadael amgen i gydnabod yr hyn y maent wedi'i gyflawni.
Cyflwyniad a Chyfnod Sylfaen	Ar y lefel hon bydd myfyrwr yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, sgiliau a meithrin gwybodaeth a byddant yn dod yn gyfarwydd â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • y fframwaith deddfwriaethol a pholisi cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a llesiant yng Nghymru; • y meysydd sgiliau allweddol sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol; • effaith ymarfer gwaith cymdeithasol ar bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr; • trefniadaeth a strwythur gwasanaethau sy'n ceisio hybu gofal cymdeithasol a llesiant; • ymchwil sy'n berthnasol i'w Lleoliad Ymarfer. 	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiad ffurfiannol a chrynodol o ddysgu academaidd ac ymarferol mewn coleg a lleoliadau ymarfer a fydd yn cynnwys gweithdai sgiliau. Drwy'r asesiad hwn dylai myfyrwr allu dangos dealltwriaeth o 6 rôl allweddol gwaith cymdeithasol a'r ugain Safon Alwedigaethol Genedlaethol a dangos bod eu hyfedredd ynddynt yn datblygu; • Cwblhau'r tasgau asesu ar gyfer pob un o fodiwlau'r rhaglen; • O leiaf 100 niwrnod o gyfnodau Dysgu Ymarfer sy'n cael eu Hasesu mewn dim mwy na dau gyfle dysgu ymarfer. 	<ul style="list-style-type: none"> • Tystysgrif mewn AU; • Diploma mewn AU; neu • Tystysgrif Ôl-radd mewn AU.
Cymhwyso Gwybodaeth, Sgiliau a Gwerthoedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol	Ar y lefel hon bydd myfyrwr yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol o sgiliau ymarfer a phrofiad a defnyddio'r ddealltwriaeth honno mewn ymarfer proffesiynol. Byddant yn ymdrin â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • pum maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc⁴ <ul style="list-style-type: none"> → Theori Gwaith Cymdeithasol → Gwerthoedd a Moeseg → Pobl ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth → Natur ymarfer gwaith cymdeithasol → Arwain, trefnu a darparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol • Y pum Sgil Benodol i'r Pwnc a sgiliau eraill⁵ <ul style="list-style-type: none"> → Sgiliau datrys problemau → Sgiliau cyfathrebu → Sgiliau gweithio gyda phobl eraill → Sgiliau datblygiad personol a phroffesiynol → Defnyddio technoleg a sgiliau rhifiadol⁶. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad a gwerthusiad myfyrwr o'r ffordd y maent yn cymhwyso Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol drwy: <ul style="list-style-type: none"> → eu hagwedd at ddatblygiad proffesiynol ac academaidd → gwaith sy'n cael ei asesu → dysgu ymarfer → eu hymddygiad • Dangos dealltwriaeth o chwe rôl allweddol gwaith cymdeithasol fel y maent yn cael eu diffinio gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r wybodaeth a'r sgiliau y gofynnir iddynt eu cael. 	

Camau Datblygu	Cynnwys	Sut y mae'n cael ei hasesu	Dyfarniad Ymadael
Datblygu a Chadarnhau Hyfedredd mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	Ar y lefel hon bydd myfyrwr yn datblygu ac yn cadarnhau eu hyfedredd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol a chymhwyso gwybodaeth am y pwnc a sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys <ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i gymhwyso egwyddorion polisi cymdeithasol Cymru a'r fframwaith deddfwriaethol yn eu hymarfer • Y gallu i wneud defnydd priodol o ymchwil wrth wneud penderfyniadau a ffurfio barn broffesiynol ynglŷn ag ymarfer ac wrth werthuso canlyniadau • Myfyrwr yn dangos barn broffesiynol, ymyriadau a myfyrio beirniadol. 	Dysgu yn y coleg ac o leiaf 80 diwrnod o ddysgu ymarfer mewn un cyfle dysgu ymarfer. (Rhaid i'r cyfanswm o ddiwrnodau dysgu ymarfer yn ystod y cyfle hwn a chyfleoedd dysgu ymarfer blaenorol fod o leiaf 200). Erbyn diwedd y lefel hon a phan fyddant yn graddio (â gradd anrhydedd) rhaid i fyfyrwr allu <ul style="list-style-type: none"> • Bodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol • Dangos eu bod wedi bodloni gofynion Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc sydd yn y Datganiadau Meincnodi • Dangos eu bod wedi meithrin ac integreiddio'r Sgiliau Pwnc Penodol a sgiliau eraill sy'n cael eu disgrifio gan y Datganiadau Meincnodi • Integreiddio'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a dadansoddi'n feirniadol y ffordd y mae'n cael ei gymhwyso ym mhob agwedd ar eu gwaith. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gradd • Diploma i Raddedigion neu • Radd Meistr nad yw'n cymhwyso.

Mae'r Datganiadau Meincnodi yn disgrifio'r safonau trothwy y mae'n rhaid i bob myfyriwr eu cyrraedd. Rhennir y rhain yn ddwy ran, sef gwybodaeth a dealltwriaeth, a'r sgiliau cysylltiedig ar gyfer pynciau penodol a sgiliau eraill.

1. Gwybodaeth a dealltwriaeth

Ar ôl graddio â gradd anrhydedd mewn Gwaith Cymdeithasol, rhaid i fyfyrwyr allu dangos:

1. dealltwriaeth gadarn o'r pum maes creiddiol o ran gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i waith cymdeithasol, fel y maent yn cael eu disgrifio yn Adran 5 (o'r Datganiadau Meincnodi)⁷, gan gynnwys eu cymhwyso i ymarfer a darparu gwasanaeth

2. gallu i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon mewn ffordd integredig, mewn cyd-destunau ymarfer penodol

3. gallu i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i ffurfio perthnasoedd effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr, a pherthnasoedd gyda gweithwyr proffesiynol eraill a thrwy oruchwyliaeth

4. arfarnu dysgu a phrofiad blaenorol a'r gallu i ymgorffori hyn yn eu dysgu a'u hymarfer yn y dyfodol, gan gynnwys cymryd rhan mewn goruchwyliaeth

5. cydnabod a deall posibiliadau a chyfyngiadau Gwaith Cymdeithasol, fel disgyblaeth sy'n seiliedig ar ymarfer, o ran gallu gwaith cymdeithasol i newid unigolion a chymdeithas

6. gallu i ddefnyddio technegau ymchwilio ac ymholi ag ymwybyddiaeth ffyrliol, i gasglu, dadansoddi a dehongli gwybodaeth berthnasol

7. gallu wedi'i ddatblygu i werthuso gwybodaeth a thystiolaeth o ffynonellau amrywiol yn feirniadol.

2. Sgiliau ar gyfer pynciau penodol a sgiliau eraill

Ar ôl graddio â gradd anrhydedd mewn Gwaith Cymdeithasol, rhaid i fyfyrwyr allu dangos gallu wedi'i ddatblygu i wneud y canlynol:

1. cymhwyso sgiliau craidd amrywiol fel y nodir yn Adran 5 (o'r Datganiadau Meincnodi)⁸ a hynny mewn ffordd greadigol

2. cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr, ac â gweithwyr proffesiynol eraill

3. cyfuno dealltwriaeth glir o faterion moesegol a chodau neu safonau moeseg, ymddygiad ac ymarfer perthnasol â'u hymyriadau mewn sefyllfaoedd penodol

4. ymarfer lefel briodol o annibyniaeth a menter wrth wneud penderfyniadau unigol yng nghyd-destun gofynion goruchwyliaeth, cydweithredu a moeseg a gofynion sefydliadol

5. datblygu sgiliau myfyrio'n feirniadol ar eu perfformiad a bod yn gyfrifol am addasu camau gweithredu a dysgu gwersi o hynny, gan ddefnyddio mecanweithiau cefnogi priodol lle bo angen.

**Datganiad Meincnodi Pwnc yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol⁹
Gofynion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Defnyddio technoleg a sgiliau rhifiadol

Mae paragraff 5.18 o'r Datganiad Meincnodi Pwnc yn nodi ei bod yn ofynnol i raddedigion mewn gwaith cymdeithasol allu defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol ac yn briodol ar gyfer y canlynol:

I. cyfathrebu proffesiynol, storio ac adalw data a chwilio am wybodaeth

II. cyrchu a chymathu gwybodaeth fel sail i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau

III. dadansoddi data er mwyn gallu gwneud defnydd effeithiol o ymchwil wrth ymarfer

IV. gwella sgiliau datrys problemau

V. cymhwyso sgiliau rhifiadol i gyfrifoldebau ariannol a chyllidebol

VI. deall effaith gymdeithasol technoleg, gan gynnwys cyfyngiadau cyfrinachedd ac ymwybyddiaeth o effaith y 'rhaniad digidol'.

Cyfeirnodau

1. *Datganiad Meincnodi Pwnc – Gwaith Cymdeithasol*, Hydref 2016, [Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd](#), [Datganiadau Meincnodi Pwnc](#).
2. *Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol*, 2012, [Gofal Cymdeithasol Cymru](#), [Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol](#).
3. *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*, 2017, [Gofal Cymdeithasol Cymru](#), [Cod Ymarfer Proffesiynol](#).
4. Yn seiliedig ar y *Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol*, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd 2016.
5. Ibid t.17.
6. Gweler atodiad 2.
7. Disgrifir pum maes creiddiol gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc fel:
 - Theori Gwaith Cymdeithasol
 - Gwerthoedd a Moeseg
 - Defnyddiwr Gwasanaeth a Gofalwyr
 - Natur ymarfer gwaith cymdeithasol
 - Arwain, trefnu a darparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol.
8. Y pum maes sgiliau craidd y dylai gweithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso eu meithrin a'u rhoi ar waith yw:
 - Sgiliau datrys problemau
 - Sgiliau cyfathrebu
 - Sgiliau gweithio gyda phobl eraill
 - Sgiliau datblygiad personol a phroffesiynol
 - Defnyddio Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

9. Wedi'i godi o: *Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol*, 2016, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2016.